CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 7 TACHWEDD 2017

Presennol
Ei deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
E R Hughes, W L Davies, W R Owen , W T Owen, A Hopcyn ,
E Lovgreen , K Jones, C Larsen, S Sage, R Thomas

1. **Ymddiheuriadau**

J W Parry , C Williams, K Richards, M Sarnacki, B Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Nodwyd marwolaethau Cyn Cynghorydd Menna Thomas, Hywel Roberts ac Alun Lewis gan cydymdeimlad y Cyngor ar teuluoedd oll ynghyd ac unrhyw deulu arall sydd mewn gofid- safodd pawb am funud fel arwydd o barch

13.10.2017	Champion's Awards Daily Post Llandudno
13.10.2017	Agor Bore Coffi Ffrindiau Eryri
29.10. 2017	'Poppy Launch Appeal'
3.11.2017	Agor Siop y British Legion/
3.11.2017	Cyngerdd Cor Meibion Maelgwyn yng Nghonwy/
4.11.2017	Noson Tan Gwyllt
5.11.2017	Agor arddangosfa yn y Galeri – Cor Meibion Caernarfon
6.11.2017	Bws Sadwrn Busnesau Bach ar y Maes

3. **Datgan Buddiant Personol**

Y sawl oedd wedi datgan yn panel cyllid os fydd trafodaeth ar unrhyw gais a'r Cyng E Hughes ar eitem 10 a &b

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Datganiad gan Cyng C Larsen

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor 3 Hydref 2017
ii. Panel Cyllid 31 Hydref 2017
Penderfynwyd
i. Derbyn fel rhai cywir (10 o blaid , 1 ymatal)
ii. Deryn a'u mabwysiadu (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ond angen newid pennawd siec 103321 i Cegin Noddfa ar y system cyfrifon (unfrydol)

8. Llywodraeth Cymru

Adolygiad o'r Sector - Cynghorau Cymuned a Thref

- 4 cwestiwn angen ateb

Nododd y clerc bod sesiwn yn cael ei gynnal yn yr Institiwt ar y mater ar 28 Tachwedd (2 tan 4) ac efallai bod werth disgwyl tan ar ôl hwnnw i ateb y cwestiynau
Penderfynwyd
Cyng I C Thomas a Cyng C Larsen os yn bosib

9. **Llythyr gan Cyngor Gwynedd**

Parthed: Hunaniaith
Penderfynwyd
Holi'r swyddog i weld os y teimlant bod werth dod yma

10. a) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Adroddiad Blynyddol drafft

Eglurodd y clerc bod oblygiadau sylweddol o safbwynt gorfod rhoi cynghorwyr i gyd ar cyflogres os fydd y cynllun terfynol yn gorfodi taliad i bob cynghorydd . Aethpwyd trwy bob pennawd a penderfynwyd fel sydd wedi rhestru isod

b) **Amcangyfrifon (o Cyngor Hydref)**
- *lwfans y Maer*

Yn dilyn yn trafodaeth ar dogfen Panel annibynnol amcangyfrifon wedi cael ei newid i ddangos y newidiadau perthnasol (ynghyd ar ceisiadau ariannol o cofnodion panel cyllid)

Penderfynwyd

A)Rhif 44 am taliad £150 i bob cynghorydd – **dymuno gweld y gair "gall " yn hytrach na gorfod** (10 o blaid 1 ymatal)
Rhif 45 am taliad £500 i isafswm o un uchafswm o 5 aelod am cyfrifoldebau ychwanegol - **dymuno gweld y gair "gall" yn hytrach na "gorfod" (unfrydol)**
Rhif 46 – ddim yn berthnasol gan ein bod ni yn band A **(unfrydol)**
Rhif 47 – costau teithio – **hapus i dderbyn (unfrydol)**
Rhif 48 – Treuliau cynhaliaeth – **hapus i dderbyn (unfrydol)**
Rhif 49 – Digolledu am golled ariannol – **hapus i dderbyn (unfrydol)**
Rhif 50 – Ad dalu costau gofal - **hapus i dderbyn (unfrydol)**
Rhif 51 – lwfans dinesig i bennaeth dinesig - hapus i dderbyn **(10 o blaid ni chymerodd Cyng E Hughes rhan yn y drafodaeth)**
Rhif 52 - lwfans dinesig i dirprwy dinesig – hapus i dderbyn (unfrydol)
B) Eglurodd y clerc bod yr amcangyfrifon wedi eu newid i ddangos posibiliadau yr uchod ac hefyd y ceisiadau oedd wedi eu pasio yn y Panel Cyllid - **cafwyd eu mabwysiadu yn unfrydol** (ni chymerodd Cyng E Hughes rhan yn y drafodaeth)

11. **Adroddiad Blynyddol – fersiwn drafft (amgaeedig yn yr amlen)**

Cafwyd eglurhad bod hwn yn ddogfen newydd i'r Cyngor a Penderfynwyd

I pawb anfon cywiriadau neu newidiadau ir clerc o fewn yr wythnos (unfrydol)

12. **Llythyr Cyngor Gwynedd**

Parthed Parc Coed Helen
Eglurodd y clerc bod yna denant cyflogedig yn y tŷ ar hyn o bryd fydda yn achosi pryder fel swyddog priodol . Rhai o ddefnyddwyr y safle wedi cael ar ddeall yn barod gan Cyngor Gwynedd bod nhw yn disgwyl i'r Cyngor Tref mabwysiadu

Penderfynwyd

I gytuno i gyfarfod er mwyn darganfod ffeithiau (6 o blaid , 3 yn erbyn a 2 ymatal)

Pawb yn unfrydol mae y Maer, Dirprwy a'r clerc dylid cyfarfod y swyddogion

13. **Cylchlythyr Ysbyty Gwynedd**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

14. **E-bost Cyngor Gwynedd**

Parthed Eisteddfod Genedlaethol
Cafwyd sgwrs ar yr ymateb a

Penderfynwyd

bod angen ysgrifennu'n nol i Cyngor Gwynedd yn ail dynnu sylw i'r elfen o wylio beth mai Caerdydd yn llwyddo i ddarparu eleni o safbwynt ymarferoldeb cynnal yng nghanol tref a llythyru'r Eisteddfod yn croesawu'r Eisteddfod i Gaernarfon gan obeithio fod modd cynnal eisteddfod arloesol tebyg i Gaerdydd os fydd yn llwyddiant (unfrydol)

15. **Comisiwn Ffiniau i Gymru**

Arolwg 2018

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

16. **Calendr Cyfarfodydd Cyngor 2018**

Eglurodd y clerc y synnwyr o symud cyfarfod Ionawr ymlaen wythnos gan bod y clerc yn gobeithio bod nol erbyn hyn

Penderfynwyd

Derbyn a'u mabwysiadu (unfrydol)

17. **E-bost National Grid**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Ann Hopcyn

Parthed adroddiadau i'r Cyngor

Cafwyd trafodaeth bod hi yn anodd i'r cyhoedd wybod cynnwys eitem pan nad oedd adroddiad ysgrifenedig fel rhan o'r rhaglen. Hefyd yn gwneud cofnodion llawer iawn haws pan fydd o leiaf pwyntiau bwled wedi eu cyflwyno ar prif penawdau arwyddocaol

Penderfynwyd

Gofyn i bob cynghorydd sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar cyfarfodydd allanol i baratoi adroddiad bychain ysgrifenedig i'w cyflwyno i'r Cyngor (unfrydol)

19**.Cwestiynau**

Oes modd cymuno phob lwc i'r clerc ? **oes**

20. Datganiad Cyng C Larsen

Mae Cyngor Tref Caernarfon yn condemnio llywodraeth Sbaen am ddefnyddio heddlu para filwrol i atal pobl rhag pleidleisio yn refferendwm Catalonia.

Mae Cyngor Tref Caernarfon yn datgan ei gefnogaeth i gynghorau tref, meiri, llywodraeth etholedig a phobl Catalonia, ac yn datgan bod ganddynt yr hawl i benderfynu ar eu dyfodol cyfansoddiadol eu hunain.

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys y datganiad (unfrydol)

Gorffennodd y Cyfarfod am 19.02

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....